



Cwestiynau cyffredin: Datblygiad Archwiliadol i geisio Nwy ar y Tir ym

Cwestiynau Cyffredin: datblygiad arfaethedig o dwll turio archwiliadol i geisio nwy ar y tir ym Mhontrhyd-y-fen

Bwriad y wybodaeth yn y ddogfen hon yw rhoi ymatebion i gwestiynau cyffredin ynglŷn â'r datblygiad archwiliadol arfaethedig sy'n ceisio nwy ar y tir ym Mhontrhyd-y-fen. Mae'r ymatebion wedi'u seilio ar yr ystyriaeth gychwynol a roddodd Cyfoeth Naturiol Cymru i'r cais am drwydded, a chan ein bod yn asesu'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd ac iechyd o ganlyniad i'r gweithgareddau arfaethedig hyn, byddwn yn diweddarau'r ymatebion i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf.

Bwriedir y ddogfen hon i gynulleidfa nad yw'n dechnegol, ac mae'n anelu at roi dealltwriaeth gyffredinol o'r materion o dan sylw, yn hytrach na chanolbwyntio ar y manylion. Cynghorir bod y cwestiynau cyffredin hyn, sy'n benodol i'r safle, yn cael eu darllen ar y cyd â'r **Cwestiynau Cyffredin** mwy cyffredinol.

1. Amlinelliad o'r datblygiad arfaethedig

1.1 Pa weithgaredd mae UK Methane Ltd yn bwriadu ei wneud ym Mhontrhyd-y-fen?

Mae'r datblygwr wedi gwneud cais am drwydded amgylcheddol i reoli'r gwastraff a gynhyrchir drwy ddrilio a phrofi twll turio archwiliadol.

Mae UK Methane Ltd yn bwriadu drilio twll turio archwiliadol i brofi'r strata Westphaliaidd a Namuriaidd i geisio cronfeydd methan haen glo a nwy siâl. Bydd twll turio, o ddiamedr o 300mm ar y mwyaf, yn cael ei ddrilio hyd at ddyfnder o oddeutu 1,500 o fedrau. Bydd casyn twll turio yn cael ei osod hyd at ddyfnder o 430 o fedrau, a fydd yn cael ei smentio'n llwyr. Ni fydd unrhyw gasyn yn cael ei osod yng ngweddill y twll turio.

Bydd y gwaith profi yn cynnwys tynnu sampl craig er mwyn iddi gael ei dadansoddi yn y labordy, a chynnal profion gollwng a ffurfiant integredd arni er mwyn darganfod cryfder y graig:

- Mae **profion gollwng** yn ymwneud â phrofi ffurfiant y graig er mwyn darganfod data peiranyddol cronfeydd ac o dan ba bwysedd mae'r ffurfiant craig yn dod yn athraidd (h.y. yn gadael i hylifau a nwyon dreiddio iddo). Rhoddir pwysedd hydrolog ar un darn arunig o'r graig nes y bydd yr hylif yn dechrau gollwng i mewn i/treiddio drwy'r graig a bydd yn dechrau hollti, ac felly y pennir y pwysedd 'gollwng'. Mae hyn yn ei wneud yn bosibl i fesur y mandylledd, a hefyd yn gwirio'r union bwysedd y bydd y graig yn hollti dano; yn y modd hwn, sefydlir y meini prawf ar gyfer gweithgareddau archwilio yn y dyfodol.

Mae hyn yn wahanol iawn i'r broses hollti hydrologig i echdynnu nwy gan fod cyfeintiau'r dŵr a ddefnyddir yn y broses hon oddeutu 10 medr ciwbig yn unig (byddai proses hollti hydrologig er mwyn echdynnu nwy yn gofyn am fwy na 1, 000 o fedrau ciwbig fel arfer).

- Ystyr **Prawf Integredd Ffuriant** yw prawf lle bydd y graig yn ddarostyngedig i bwysedd ragderfynedig sydd yn is na'r pwysedd gollwng er mwyn monitro integredd y ffynnon.

Mae'r datblygiad arfaethedig ym Mhontrhyd-y-fen yn gyfyngedig i weithgareddau archwiliadol un unig. Nid oes gan UK Methane ganiatâd cynllunio ar gyfer gweithgareddau echdynnu nwy, ac nid ydynt wedi gwneud cais am drwydded amgylcheddol er mwyn cynnal gweithgareddau echdynnu nwy masnachol.

1.2 Pa fath o nwy mae UK Methane Ltd yn ei archwilio ar y safle?

Bydd UK Methane Ltd yn drilio'r twll turio archwiliadol er mwyn chwilio am bresenoldeb methan haen glo a nwyon siâl. Bydd UK Methane yn casglu samplau craidd (craig) oddi wrth y twll turio a fydd yn cael eu profi yn y labordy symudol a fydd ganddynt ar y safle.

- Mae nwy siâl yn cyfeirio at y nwy a gynhwysir mewn holltau a gofodau mandyllog, neu at nwy a arsugrir ar ddeunydd organig oddi mewn i graig siâl. Methan yn bennaf yw nwy siâl, sy'n cael ei echdynnu trwy wneud holltau cul yn y graig gan ddefnyddio technegau hollti hydrologig (gweler ein [Cwestiynau Cyffredin](#) am ragor o wybodaeth ynghylch hollti hydrologig).
- Mae methan haen glo yn cyfeirio at y nwy naturiol (methan yn bennaf) a echdynnir oddi wrth haenau glo sydd heb eu cloddio.

1.3 Beth yw'r gwahanol gamau ar gyfer datblygiad olew a nwy?

Mae datblygu cronfeydd methan haen glo a nwyon siâl yn digwydd gan amlaf wrth ddilyn pedwar cam allweddol.

- Gan amlaf, mae **archwilio** yn golygu drilio twll turio er mwyn asesu ffurfiannau craig a'r ansawdd botensial o adnoddau sydd ar gael ar unrhyw safle penodol.
- Mae **gwerthuso**'n debygol o gynnwys cynnydd yn nifer y tyllau turio a rhywfaint bach o echdynnu olew neu nwy, er mwyn asesu'r dichonoldeb technegol a'r costau o echdynnu'r olew neu nwy ar unrhyw safle penodol.
- Mae **cynhyrchu**'n cyfeirio at echdynnu'n fasnachol ar raddfa eang. Mae hyn yn debyg o ofyn am wneud rhagor o dyllau turio a gweithgareddau cysylltiedig ar yr arwyneb (megis cyfleusterau storio a phrosesu nwy).
- Mae **adfer y safle** wrth adael yn cyfeirio at waredu'r ffynhonnau a'r isadeiledd yn barhaol.

Os bydd y gweithgareddau archwiliadol sydd wedi'u manylu yn adran 1.1 ac 1.2 yn dangos bod cronfeydd nwy dichonadwy o safbwynt economaidd yn bod, bydd angen ar UK Methane wneud cais am ganiatâd cynllunio newydd a thrwyddedau amgylcheddol, a hefyd a'u derbyn, cyn i'r gwaith echdynnu nwy gael dechrau.

2 Rheoleiddio gweithgareddau archwiliadol

2.1 Pa gyrff sy'n gyfrifol am ganiatáu'r datblygiad arfaethedig ym Mhontrhyd-y-fen?

Rheoleiddir gweithgareddau olew a nwy anghonfensiynol yng Nghymru gan nifer o gyrff llywodraethol, pob un â'i swyddogaeth a'i gylch gwaith penodol. Mae map rheoleiddio ar gael ar [GOV.UK](http://gov.uk) sy'n egluro swyddogaethau'r gwahanol sefydliadau, a'r caniatâd a'r trwyddedau sydd eu hangen. Mae'r yn amlygu sut mae'r map rheoleiddio'n gweithredu yn achos y datblygiad arfaethedig ym Mhontrhyd-y-fen. Bydd angen cael cydsyniad gan yr holl gyrff sydd wedi'u rhestru cyn i unrhyw weithgaredd drilio gael dechrau.

Corff y llywodraeth	Rôl	Manylion Pontrhyd-y-fen
Awdurdod Olew a Nwy	Mae'n rhaid i ddatblygwr dderbyn trwydded i chwilio am a datblygu olew (PEDL) gan Adran Ynni a Newid Hinsawdd llywodraeth y DU (DECC), trwy'r awdurdod olew a nwy (OGA), cyn iddo gael derbyn unrhyw ganiatadau eraill (gweler adran 3).	Gwnaeth DECC gyflwyno PEDL rhif 215 i UK Methane Ltd fel rhan o rownd trwyddedu gweithgareddau olew a nwy ar y tir. Cyflwynwyd trwydded PEDL rhif 215 yn 2008.
Awdurdod Cynllunio Lleol (cyfeirnod cynllunio - P2015/0031)	Mae'n rhaid i gwmnïau sy'n ceisio ymgymryd ag ymchwiliadau archwiliadol wneud cais am ganiatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol (sef yr awdurdod lleol yng Nghymru). Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried ffactorau megis sŵn, golau, traffig, risg llifogydd a llygredd aer.	Rhodddwyd caniatâd i gynnal drilio archwiliadol ym Mhontrhyd-y-fen i UK Methane Ltd gan yr awdurdod cynllunio lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) ym Mawrth 2015.
Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae'n rhaid i gwmnïau wneud cais am y caniatadau amgylcheddol angenrheidiol sy'n	Gwnaethom dderbyn cais am drwydded ym mis Gorffennaf 2015, a gwnaethom

	gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch sy'n dod o dan y ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol.	ymgyngori'n gyhoeddus ynglŷn â'r cais rhwng 10 Medi ac 11Hydref. Ar hyn o bryd, rydym yn asesu'r cais, ac effaith bosibl y datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd ac iechyd pobl, a byddwn yn penderfynu pa un a fyddwn yn cyflwyno'r drwydded(au) ai peidio.
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)	Mae'r HSE yn rheoleiddio'r risgiau iechyd a diogelwch i bobl. Yn benodol, maent yn gyfrifol am sicrhau dyluniad ac adeiladwaith priodol ar gyfer casyn y ffynnon yn ogystal ag ar gyfer unrhyw dyllau turio olew a nwy. Mae gofynion HSE o ran sicrhau integredd y ffynnon hefyd yn cyfrannu at leihau risgiau amgylcheddol.	Bydd rhaid asesu a chymeradwyo'r gweddau technegol ar y gwaith drilio gan Adran Olew a Nwy HSE, yr Awdurdod Glo, a'r Awdurdod Olew a Nwy cyn i'r gwaith gael ddechrau.
Yr Awdurdod Glo	Mae'n gyfrifol am roi cydsyniad ar gyfer gweithgarwch sy'n torri ar draws haenau glo, yn ymyrryd arnynt, neu'n mynd i mewn iddynt.	
Awdurdod Olew a Nwy	Yn cyhoeddi cydsyniad terfynol ar gyfer pob drill twll turio.	

2.2 Beth yw rôl Cyfoeth Naturiol Cymru'n rheoleiddio olew a nwy ar y tir yn ystod y cam archwilio?

Ni yw'r rheoleidiwr amgylcheddol ar gyfer gweithrediadau olew a nwy anghonfensiynol yng Nghymru, lle mae'r rheoliadau trwyddedu amgylcheddol neu unrhyw ddeddfwriaeth amgylcheddol arall yn berthnasol. Byddwn yn helpu i sicrhau bod gweithgareddau olew a nwy'n cael eu cynnal mewn ffordd sy'n amddiffyn pobl a'r amgylchedd. Rydym yn gwneud hyn trwy asesu ceisiadau am drwyddedau, cyhoeddi trwyddedau pan fo hynny'n briodol, a sicrhau cydymffurfiaid ag amodau'r drwydded trwy arolygiadau a gwiriadau cydymffurfiaid, a darparu cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr.

Mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i gyhoeddi trwydded os gall busnes ddangos bod y datblygiad yn cwrdd â holl ofynion cyfreithiol, amgylcheddol, technolegol ac iechyd cyfraith

y DU ac Ewrop. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cyhoeddi trwydded neu'n caniatáu i gwmnïau ddechrau gweithio oni bai eu bod yn gallu dangos sut maent yn darparu lefel uchel o amddiffyniad i bobl a'r amgylchedd.

2.3 Pa drwyddedau amgylcheddol fydd angen ar UK Methane Ltd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i archwilio am nwy ym Mhontrhyd-y-fen?

Bydd hyn yn dibynnu ar y dulliau cytûn fydd yn cael eu defnyddio gan y datblygwr, daeareg y safle, a chanlyniad y cais am drwydded. Ar gyfer archwiliad twll turio arferol, fe all fod angen hyd at 12 o wahanol gydsyniadau, trwyddedau a chaniatadau gan CNC ar ddatblygwr cyn y gall ddechrau unrhyw waith drilio (yn ogystal â'r cydsyniadau angenrheidiol gan y cyrff eraill a restrir yn adran 2.1). Mae'r trwyddedau'n berthnasol i amrywiaeth o weithgareddau sy'n rheoli dŵr daear, sylweddau ymbelydrol, gwastraff cloddio, tynnu dŵr, fflagu, gollyngiad dŵr, ac amddiffyn rhag llifogydd. I gael y trwyddedau angenrheidiol, bydd angen i UK Methane Ltd ddangos ei fod yn deall y peryglon i'r amgylchedd gan ei weithgareddau a dangos sut y bydd yn lleihau'r peryglon hynny i'r lefel isaf posibl.

Mae'n bwysig nodi ar gyfer gweithgareddau twll turio archwiliadol, mai fel arfer dim ond y gweithgareddau hynny gan y datblygwr sy'n berthnasol i reoli gwastraff cloddiol a gynhyrchir trwy archwilio adnoddau olew a nwy anghonfensiynol sy'n cael eu rheoleiddio gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Bydd rhaid i agweddau technegol y gwaith drilio gael eu hasesu a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan Adran Olew a Nwy yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr Awdurdod Glo, a'r Awdurdod Olew a Nwy cyn i'r gwaith ddechrau.

2.4 Ydy UK Methane Ltd wedi ceisio caniatâd i ymgymryd â thynnu nwy, hollti hydrolog neu unrhyw ffurf arall ar ysgogi llif ffynnon?

Amlinellir y gweithgareddau y gwnaed cais amdanynt yn adran 1.1 ac 1.2. Mae'r datblygiad arfaethedig ym Mhontrhyd-y-fen ar gyfer twll turio archwiliadol a phrofi'n unig. Nid yw UK Methane Ltd yn ceisio caniatâd i dynnu nwy siâl neu fethan gwely glo, neu i ddefnyddio technegau ysgogi llif ffynnon fel hollti hydrolog.

2.5 A fydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n ystyried Trwyddedau Rheolau Safonol ar gyfer prawf pwysedd?

Nid ydym yn ystyried defnyddio Trwyddedau Rheolau Safonol ar gyfer gweithgareddau profi pwysedd. Ymgynghorodd Asiantaeth yr Amgylchedd ar drwydded rheolau safonol ar gyfer profion pwysedd yn Lloegr yn ddiweddar, ond nid yw'r dull hwn yn cael ei ystyried yng Nghymru.

2.6 Beth yw rôl Cyfoeth Naturiol Cymru fel rheolwr tir?

Rydym yn berchen ar dir mewn gwahanol rannau o Gymru lle gellir cynnal archwiliadau. Ni hefyd yw rheolwr tir Ystad Coetir Llywodraeth Cymru a all ddod o fewn ffiniau Trwydded Chwilio am a Datblygu Petrolewm (PEDL) a gyhoeddir gan yr Awdurdod Olew a Nwy (gweler adran 3).

Ar gyfer datblygiadau arfaethedig ar dir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn sicrhau bod gwahaniad clir o ran dyletswyddau, eglurdeb rôl a thryloywder yn y ffordd rydym yn gweinyddu ein swyddogaethau. I ddangos gwahaniad clir rhwng ein rôl fel rheolwr tir a'n rôl fel rheoleiddiwr, caiff trefniadau mynediad tir eu rheoli gan ein tîm Menter a'r cais am drwydded gan ein timau Gwasanaethau Rheoleiddiol/Trwyddedu. Mae pob tîm yn dilyn y canllawiau statudol, mewnol ac arfer gorau priodol.

2.7 Beth yw'r trefniadau mynediad tir rhwng UK Methane Ltd a Chyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer safle Pontrhyd-y-fen?

Mae'r safle datblygu arfaethedig ym Mhontrhyd-y-fen o fewn Ystad Coetir Llywodraeth Cymru sy'n cael ei rheoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Gwnaed cais gan UK Methane Ltd am gytundeb trwydded mynediad i sefydlu safle drilio ym Mhontrhyd-y-fen. Yn unol â'r dyletswyddau a orfodwyd arno gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013, rhoddodd CNC drwydded mynediad amodol a chyfyngedig o ran amser i UK Methane Ltd (y cytunwyd arno ar 1 Medi 2015 am gyfnod o 12 mis).

Mae'r drwydded yn caniatáu mynediad at ddibenion cyfyngedig (drilio a phrofi twll turio) i ardal fechan o dir rydym yn ei rheoli. Mae'r drwydded yn gyfan gwbl amodol ar i UK Methane Ltd gael yr holl ganiatadau angenrheidiol, gan gynnwys caniatadau cynllunio ac amgylcheddol. Nid oes gan UK Methane Ltd hawl i gynnal unrhyw weithgareddau heb gael yr holl ganiatadau angenrheidiol yn gyntaf.

2.8 Ydy rhoi trwydded i fynd ar y tir ym Mhontrhyd-y-fen yn dangos cefnogaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru i'r diwydiant olew a nwy ar y tir?

Ni fydd y penderfyniad i ganiatáu'r drwydded mynediad yn rhagfarnu canlyniad y broses penderfynu ar gais am drwydded (mae'r datblygwr yn ysgwyddo'r perygl bod y cais am drwydded yn cael ei wrthod).

Fel rheoleiddiwr amgylcheddol, ein rôl ni yw penderfynu a ellir cynnal gweithgareddau archwilio a datblygu mewn ffordd sy'n amddiffyn pobl a'r amgylchedd. Rydym yn ystyried y peryglon amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag archwilio olew a nwy yn ddirifol iawn, gan gynnwys hollti hydrolog ar gyfer nwy siâl.

Mae ein trefniadau rheoli ar waith i amddiffyn pobl a'r amgylchedd. Os bydd y gweithgaredd yn peri perygl annerbyniol i'r amgylchedd, ni roddir caniatâd i'r gweithgaredd hwnnw. Rydym yn fodlon bod y rheoliadau presennol yn ddigonol i amddiffyn yr amgylchedd yn ystod cam archwilio datblygiad y diwydiant. Rydym yn parhau i adolygu ein

dull rheoleiddiol wrth i'r diwydiant ddatblygu er mwyn parhau safonau uchel o ran amddiffyniad amgylcheddol, gan amddiffyn pobl yn ogystal â'r amgylchedd.

2.9 Sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymgynghori â phobl ar y datblygiad arfaethedig ym Mhontrhyd-y-fen?

Cafodd manylion y cais am drwydded eu cyhoeddi ar ein gwefan a'u cyfathrebu'n eang trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol (tudalen Twitter a Facebook CNC). Gwnaethom ymgynghori ar y cais am drwydded rhwng 10 Medi ac 11 Hydref 2015, ac estynnwyd gwahoddiad i randdeiliaid â diddordeb gyflwyno eu safbwyntiau a phryderon ynglŷn â'r cais.

Bydd y cais am drwydded hefyd yn cael ei gadw ar ein Cofrestr Gyhoeddus. Gellir trefnu i weld y gofrestr gyhoeddus trwy gysylltu fel a ganlyn:

E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn: 0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

Os byddwn yn gofyn am wybodaeth bellach gan UK Methane Ltd nad oedd yn rhan o'r cais gwreiddiol am drwydded amgylcheddol, bydd y cais a'r ymateb ar gael trwy gyfrwng y gofrestr gyhoeddus.

2.10 Sut bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n penderfynu ar y cais am drwydded?

Wrth wneud cais am y trwyddedau perthnasol, cyflwynodd UK Methane Ltd y ffurflenni cais a dogfennau cefnogi perthnasol ac amlinellu manylion penodol y gweithgaredd arfaethedig (ceir gwybodaeth bellach am y broses hon ar ein [gwefan](#) allanol). Byddwn yn asesu manylion y cais am drwydded ac yn gwirio na fydd y gweithgaredd arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar yr amgylchedd lleol. Byddwn hefyd yn asesu'r gweithgaredd arfaethedig mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth ddomestig. Os byddwn yn penderfynu y gellir caniatáu'r drwydded amgylcheddol, byddwn yn cynnwys amodau yn y drwydded a fydd yn darparu'r amddiffyniad angenrheidiol i'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd. Os byddwn yn ystyried bod gweithgaredd yn berygl annerbyniol i'r amgylchedd, ni fyddwn yn caniatáu unrhyw drwyddedau.

2.11 Beth yw'r amserlen ar gyfer penderfynu ar y drwydded?

Mae gennym bedwar mis i wneud penderfyniad ar geisiadau am drwydded amgylcheddol, a'r dyddiad cau ar gyfer Pontrhyd-y-fen yw 24 Rhagfyr. Fodd bynnag, gallwn ymestyn y dyddiad cau hwn os ydym yn gweld bod angen i ni ofyn am wybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd. Mewn achos o'r fath, bydd ein cais am wybodaeth ac ymateb yr ymgeisydd ar gael ar ein cofrestr gyhoeddus.

2.12 Sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n defnyddio'r egwyddor ragofalus mewn perthynas â gweithgareddau olew a nwy?

Cyflwynodd UK Methane Ltd asesiad risg fel rhan o'i gais am drwydded, a chaiff hwn ei asesu a'i ystyried fel rhan o'n penderfyniad i gyflwyno trwydded amgylcheddol neu beidio. Ni fyddwn ond yn caniatáu trwydded amgylcheddol os ydym yn fodlon bod yr ymgeisydd yn dangos bod y perygl o achosi llygredd mor isel â phosibl a bod yr asesiad risg a ddarparwyd yn cwrdd â'r gofyniad i amddiffyn yr amgylchedd ac iechyd dynol. Bydd unrhyw drwydded a gyhoeddir gennym yn cynnwys amodau priodol i amddiffyn iechyd dynol a'r amgylchedd.

2.13 A fydd yn ofynnol i'r datblygwr gasglu data sylfaenol am gyflwr y safle cyn dechrau ar unrhyw weithgareddau trwyddedig?

Roedd gofyn i'r datblygwr ddarparu adroddiad ar gyflwr y safle fel rhan o'r cais am drwydded, a chaiff hwn ei asesu fel rhan o'n penderfyniad i ganiatáu trwydded neu beidio. Ceir manylion pellach yr hyn y byddem yn disgwyl i gael ei gynnwys mewn adroddiad ar gyflwr safle ar ein [gwefan](#).

Fel rhan o'n gwaith o ystyried y cais am drwydded, byddwn yn asesu pa fonitro sylfaenol ychwanegol sydd ei angen, os o gwbl. Caiff natur a chwmpas unrhyw ofynion data sylfaen eu hasesu fesul safle, a byddant yn dibynnu ar natur y gweithgaredd penodol a gynigir gan y datblygwr, amodau'r amgylchedd lleol, a'r adroddiad ar gyflwr y safle. Bydd y math a hyd o fonitro sylfaenol yn dibynnu ar y peryglon gan weithgareddau penodol ar safleoedd arbennig.

Ar yr adeg pan fydd y datblygwr am adael y safle, bydd gofyn iddo 'ildio' ei drwydded amgylcheddol. Pan fydd yn gwneud cais i ildio'i drwydded, bydd gofyn i'r datblygwr ddarparu adroddiad cyfredol ar gyflwr y safle. Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n caniatáu i'r datblygwr ildio'i drwydded oni bai ein bod yn fodlon ar gynnwys yr adroddiad.

2.14 Os caiff yr ymgeisydd ganiatâd i fwrw ymlaen â'r gwaith, sut byddant yn monitro'r amgylchedd yn ystod ac ar ôl y gwaith drilio?

Bydd natur a chwmpas unrhyw fonitro amgylcheddol sy'n ofynnol gan y datblygwr yn cael ei ystyried fel rhan o'n proses asesu cais am drwydded. Bydd yr union ofynion yn seiliedig ar natur y gweithgaredd penodol a gynigir gan y datblygwr, amrywiadau amgylcheddol lleol, a chyfraith y DU a'r UE. Caiff y gofynion hyn eu nodi yn amodau'r drwydded.

Fel rhan o gais am drwydded UK Methane Ltd, maent wedi cynnig ymgymryd â monitro arwynebau amddiffynnol yn ddyddiol ac archwilio'r tanciau storio tanwydd a'r tancer dŵr yn rheolaidd; yn ystod y broses ddrilio, bydd monitor methan ar y safle'n mesur cysylltiad â methan. Os byddwn yn penderfynu bod angen monitro ychwanegol, byddwn yn cynnwys amodau yn y drwydded a fyddai'n amlinellu'r gofynion monitro hyn.

2.15 A fydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynnal arolygiadau o'r safle ar ôl i'r gwaith drilio ddechrau? Beth rydym yn ei fonitro?

Os byddwn yn penderfynu ei bod yn briodol i gyflwyno trwydded, bydd yn nodi'n glir yr amodau ar gyfer gweithio ar y safle, a fydd yn cynnwys amodau ar ddŵr daear, dŵr arwyneb, allyriadau, storio gwastraff yn ddiogel, a llygredd aer a sŵn a achosir gan y gwaith ar y safle – ond na fydd yr amodau'n gyfyngedig i'r rhain.

Rydym yn ymgymryd ag arolygiadau er mwyn sicrhau cydymffuriad ag amodau'r drwydded. Rydym yn canolbwyntio ein gwaith arolygu ar y safleoedd hynny lle rydym yn credu bod y perygl o ddifrod i'r amgylchedd neu'r cymunedau lleol yn fwy difrifol neu le bydd gan y gymuned bryderon penodol am y safle. Nid oes angen ar Gyfoeth Naturiol Cymru roi rhybudd i gwmnïau sy'n gweithredu safleoedd yng Nghymru cyn cynnal arolygiadau, a gall gynnal ymweliadau dirybudd.

Os byddwn yn penderfynu cyflwyno trwydded i UK Methane Ltd, bydd ein swyddogion rheoleiddio gwastraff yn paratoi rhaglen arolygu'r safle er mwyn asesu cydymffuriad ag amodau'r drwydded.

3 Trwyddedau Chwilio am a Datblygu Petrolewm (PEDL)

3.1 Beth yw Trwydded Chwilio am a Datblygu Petrolewm (PEDL)?

Ystyr PEDL yw 'Petroleum Exploration and Development Licence'. Fe'i dyfarnir gan yr Awdurdod Olew a Nwy (OGA), asiantaeth weithredol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) sydd newydd gael ei chreu, ac mae'n rhoi hawliau neilltuedig i gwmni chwilio am a datblygu olew a nwy mewn ardal benodol. Dyfarnwyd trwyddedau PEDL ar gyfer rownd 13 trwyddedu gweithgareddau ar y tir yn 2008. Dyfarnir trwyddedau rownd 14 yn 2015. Ar y dechrau, mae trwydded PEDL yn gyfyngedig i gyfnod o chwe blynedd ar gyfer archwilio, ond gellir gwneud cais am estyniadau. Ni chaiff archwilio fynd rhagddo heb drwydded PEDL, yn ogystal â'r caniatadau cynllunio, amgylcheddol a chan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sydd eu hangen. Ceir rhagor o fanylion am PEDL ar [.GOV](http://www.gov.uk).

3.2 A ydy trwyddedau PEDL wedi cael eu hatal yng Nghymru?

Gwnaeth yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC), ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru, benderfynu peidio â chyflwyno unrhyw drwyddedau PEDL o fewn Cymru fel rhan o rownd 14 trwyddedu gweithgareddau ar y tir (gan y bydd pwerau trwyddedu yn cael eu datganoli i Lywodraeth Cymru drwy [Bil Cymru](#)). Felly, ni fydd ardaloedd PEDL newydd o fewn Cymru hyd nes y ceir datganoliad llawn o'r pwerau trwyddedu a bydd Bil Cymru yn dod yn Ddeddf.

Er hynny, mae trwyddedau PEDL a ddyfarnwyd fel rhan o rownd 13 trwyddedu gweithgareddau ar y tir yn 2008 yn dal yn weithredol, ac mae gan ddatblygwyr yr hawl o hyd i chwilio am gronfeydd olew a nwy oddi mewn i'r ardaloedd PEDL presennol hyn, yn

ddarostyngedig i delerau'r trwyddedau PEDL ac yn ddarostyngedig i dderbyn y cydsyniadau cynllunio a rheoleiddiol angenrheidiol.

4 Nwy Siâl a Hollti Hydrologig

4.1 Oes moratoriwm ar nwy siâl yng Nghymru?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd agwedd ragofalus o ran datblygu adnoddau olew a nwy anghonfensiynol yng Nghymru. Fel modd i gefnogi'r agwedd hon, mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Hysbysu i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Ers 16 Chwefror 2015, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn ddarostyngedig i Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015.

Yn unol â'r Cyfarwyddyd, mae'n rhaid i awdurdod lleol sy'n bwriadu cymeradwyo cais cynllunio ar gyfer datblygu cronfeydd olew a nwy anghonfensiynol, a byddai hyn yn golygu defnyddio technoleg hollti hydrologig (neu dechnegau echdynnu anghonfensiynol eraill), gyfeirio'r cais cynllunio at Weinidogion Cymru.

Nod y Cyfarwyddyd yw rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ystyried a yw craffu priodol wedi'i roi o ran pryderon ynglŷn â'r amgylchedd ac iechyd cyhoeddus, gan y gallai'r rhain godi materion sydd yn berthnasol ar raddfa ehangach na'r ardal leol. Caiff Gweinidogion Cymru ddewis 'alw i mewn' y cais cynllunio i roi ystyriaeth bellach iddo, neu lle bo'n briodol, cânt gyflwyno Cyfarwyddyd sy'n nodi na ddylid cymeradwyo'r cais.

Mae'r Cyfarwyddyd ond yn berthnasol i ddatblygiadau archwiliadol ar y tir sy'n ymwneud â chynhyrchu methan haen glo neu nwy siâl drwy ddefnyddio technegau echdynnu anghonfensiynol, gan gynnwys hollti hydrologig. Nid yw'r Cyfarwyddyd yn berthnasol i wneud tyllau turio archwiliadol nad ydynt yn defnyddio'r fath dechnegau echdynnu anghonfensiynol.

4.2 A ydy Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal astudiaethau ar risgiau amgylcheddol nwy siâl?

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyhoeddi asesiad risg cynhwysfawr o risgiau amgylcheddol nwy siâl. Mae'r asesiad risg yn canolbwyntio ar y cam archwilio, sy'n cydweddu â chymau datblygu cyfredol y diwydiant nwy siâl yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ystyried bod yr asesiad risg hwn yn berthnasol i Gymru hefyd (ar y sail iddo gael ei baratoi'n rhannol cyn y ffurfiwyd Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r rheoliadau/deddfwriaeth a gyfeirir atynt yn berthnasol yng Nghymru a'r risgiau a nodir yn generig ac nid yn benodol i'r safle).